| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Teitl yr Adroddiad** | Trosolwg o'r Prosiect Prentisiaethau |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Rhoi trosolwg o'r Prosiect Prentisiaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau<br><br>Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried y wybodaeth a gyflwynir |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 14.10.21 |
| **Awdur** | J Carey Cartwright (Alun Lloyd Williams) |
| **Pennaeth Adran** | Geraint Owen |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Nia Jeffreys |

## 1. Cefndir

1.1 <u>Achos Dros Sefydlu Cynllun Prentisiaethau</u>

1.1.1 Mae'n hanfodol cysoni a gwella lefelau sgiliau yng Ngwynedd yn barhaus er mwyn gallu ymateb i'r heriau a ddaw, sicrhau dyfodol positif, a chadw ein pobl ifanc yn lleol. Mae cyfle i'r Cyngor arwain y ffordd drwy gynnig prentisiaethau o'r ansawdd uchaf a hynny'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.1.2 Mae prentisiaethau yn un o'r blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018 – 2023.

1.1.3 Mae'n ffordd effeithiol o ymateb i anghenion cynllunio gweithlu'r Cyngor 'I gael y bobl gywir, efo'r sgiliau cywir, yn y llefydd cywir ar yr amser cywir'.

1.1.4 Yn dilyn ymchwil i swyddi a gafodd eu llenwi yn 2016 yn y Cyngor, amcangyfrifwyd y buasai tua 54% o'r swyddi hynny yn addas i fod yn rhai prentis.

1.2 <u>Beth yw Prentisiaeth</u>?

1.2.1 Cyfle i unigolyn ddysgu drwy weithio mewn unrhyw faes, gan dderbyn hyfforddiant, ennill sgiliau a chymwysterau, tra'n ennill cyflog.

1.2.2 Gall yr unigolyn fod mewn swydd newydd sydd wedi ei chreu ar gyfer bod yn brentis neu mewn swydd gyfredol.

1.2.3 Gall prentis fod o unrhyw oed dros 16.

1.2.4 Mae hyd prentisiaethau yn gallu amrywio, ond fel arfer yn ddwy neu dair blynedd.

1.2.5 Mae prentisiaeth yn gyfuniad o brofiadau a hyfforddiant yn y gwaith, ac astudio mewn sefydliad addysgiadol e.e. un diwrnod yr wythnos.

- **Prentisiaeth Sylfaenol** - Lefel 2 (cyfwerth â Lefel TGAU)
- **Prentisiaeth** - Lefel 3 (cyfwerth â Lefel A)
- **Prentisiaeth Uwch -** Lefel 4 a 5 (cyfwerth â HNC/HND/Gradd Sylfaenol)
- **Prentisiaeth Gradd** - Lefel 6 a 7 (cyfwerth â Graddau / Graddau Uwch)

1.3 Ystyriaethau Perthnasol

1.3.1 Adroddiad 'Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru' yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu sgiliau hanfodol mewn meysydd blaenoriaeth a'r economi yng Nghymru.

1.3.2 Cyflwynwyd Ardoll Brentisiaethau (0.5% o'r bil cyflogau) yn Ebrill 2017 er mwyn annog cyflogwyr a busnesau i fuddsoddi mewn prentisiaethau.

- Y Cyngor wedi cyfrannu oddeutu £685,000.00 i'r ardoll yn 2019/20, ond yn y cyfnod yma wedi manteisio ar gymwysterau cyfwerth a £680,000.00.
- Bydd y Cyngor yn cyfrannu oddeutu £700,000 i'r ardoll ar gyfer 2021/22. Er na fydd y swm gaiff ei hadennill yr un mor uchel, rydym yn ffyddiog y gallwn ad-hawlio symiau a fyddai'n o leiaf cyfateb a'r ardoll i'r dyfodol.

1.3.3 Talu cyflog teg i brentisiaid newydd, sy'n gyfystyr â'r *Isafswm Cyflog / Cyflog Byw Cenedlaethol.*

1.3.4 Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfraniad tuag at gostau cyflogi prentisiaid, ond mae'r ardoll yn rhoi mynediad at y costau datblygol (sef yr elfennau cymwysterau a hyfforddiant yn unig).

1.3.5 Adroddiad 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus' gan Lywodraeth Cymru yn amlygu tan-gynrychiolaeth sylweddol o ferched mewn swyddi lefel uwch (llai na 10%) ac yn sectorau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg).

1.3.6 Ein ddyletswydd fel Rhiant Corfforaethol i sicrhau cyfleoedd i blant mewn gofal, drwy gynnig mynediad i gyfleoedd hyfforddi sydd wedi'i deilwra yn benodol iddyn nhw.

1.3.7 Nifer o wasanaethau wedi datgan dymuniad i gyflogi prentisiaid ac wedi ymrwymo yn rhannol i gyd-gyllido hynny.

1.4 Cymeradwyaeth a Chyllideb i'r Cynllun

1.4.1 Cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth 31.07.18:
Cyflwynwyd adroddiad gychwynnol i'r Tîm Arweinyddiaeth yn amlinellu pwysigrwydd prentisiaethau i'r sefydliad, a chyflwyno achos dros sefydlu cronfa i ariannu prentisiaid i'r dyfodol. Gofynnwyd am arweiniad ynglŷn â sefydlu cronfa o £300,000 a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gyflogi hyd at 20 prentis newydd ar gytundebau dwy flynedd.

1.4.2 Cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth 18.12.18:
Derbyn cadarnhad o gefnogaeth, gydag arweiniad i gyflwyno bid ffurfiol i'r Cabinet am gyllideb er mwyn sefydlu a gweithredu Cynllun Prentisiaethau o fewn y Cyngor.

1.4.3 Cyfarfod Cabinet 22.1.19:
Cabinet yn ymrwymo £300,000 o'r Gronfa Cynllun y Cyngor er mwyn sefydlu cynllun prentisiaethau i gyflogi hyd at 20 prentis newydd yn 2019.

1.5 <u>Heriau Cychwynnol</u>

1.5.1 Canfyddiad o beth ydi prentisiaethau yn amrywio. Mae'n hanfodol newid y meddylfryd am lwybrau galwedigaethol ar draws sectorau a sefydliadau addysgol. Golyga hyn gydnabod gwerth datblygiad galwedigaethol yn yr un ffordd â datblygiad academaidd.

1.5.2 Diffyg darpariaeth ddwyieithog ar gyfer prentisiaethau uwch yng Nghymru.

1.5.3 Darpariaeth ar gyfer rhai meysydd allweddol e.e. cyfieithu, iechyd a diogelwch, un ai ddim ar gael neu'n cymryd amser sylweddol i'w datblygu .

**2. 2019-20**

2.1 <u>Recriwtio</u>

2.1.1 Uchelgais ar gyfer 2019-20
- Penodi hyd at 20 prentis erbyn diwedd y flwyddyn.
- Creu prentisiaethau o ansawdd uchel yn y meysydd blaenoriaeth a swyddi allweddol.
- Sicrhau cyfleoedd cyfartal i ferched a dynion gan annog pobl ifanc i fentro.
- Sicrhau darpariaeth Gymraeg o'r ansawdd briodol.

2.1.2 Cynnydd: Erbyn Mawrth 2020 penodwyd 17 o brentisiaid mewn 10 maes gwahanol
- 11 o ferched a 6 o ddynion
- 2 brentis o dan 18, 11 prentis rhwng 18 a 24, 4 prentis 25+

| | **PRENTISIAETH** | **LEFEL** | **SWYDDI** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gradd TG Digidol (TG) | Gradd | 2 |
| 2 | Peirianneg Sifil (YGC) | Prentisiaeth | 2 |
| 3 | Cyswllt Cwsmer a Chofrestru (CG) | Prentisiaeth | 2 |
| 4 | Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata (Byw'n Iach) | Prentisiaeth | 1 |
| 5 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion | Sylfaenol | 2 |
| 6 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion Uwch | Uwch | 2 |
| 7 | Maes Gofal Dysgu a Datblygu Plant | Prentisiaeth | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Peirianneg Sifil (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | Prentisiaeth | 1 |
| 9 | Gwaith Ieuenctid Tîm ôl-16 (Ieuenctid) | Prentisiaeth | 1 |
| 10 | Busnes a Gweinyddiaeth (CG) | Prentisiaeth | 2 |

2.2 Gwersi a Ddysgwyd

- Pwysigrwydd ymgyrch hyrwyddo raenus sydd wedi ei thargedu, gan ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol megis cyfryngau cymdeithasol, ffair Prentisiaethau, erthyglau yn y papurau lleol, wythnos brentisiaethau a'r paneli prentisiaid.
- Mae paratoi a chefnogi rheolwyr Llinell i gefnogi'r prentisiaid yn fuddsoddiad amser gwerthfawr.
- Mae'r prentisiaid angen cefnogaeth gadarn e.e. cyfarfodydd adlewyrchu misol i adlewyrchu ar eu dysgu a datblygiad, a nodi unrhyw drafferthion neu rwystrau.

2.3 Cymeradwyaeth a Chyllideb Pellach i'r Cynllun

2.3.1 Cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth 16.03.21:
Cyflwynwyd adroddiad bellach i'r Tîm Arweinyddiaeth yn amlygu llwyddiant cychwynnol y cynllun prentisiaethau a chyflwyno achos dros glustnodi cyllideb bellach. Cymeradwywyd cyflwyno cais i'r Cabinet am £600,000 ychwanegol dros 3 blynedd er mwyn anelu i gynnig o leiaf 20 prentisiaeth y flwyddyn dros gyfnod yr ariannu.
Nodwyd y byddai hyn:

- Yn ychwanegol i'r prentisiaethau a greuwyd eisoes
- Yn golygu gallu darparu'r gefnogaeth a'r weinyddiaeth angenrheidiol (sy'n mynd yn gynyddol anodd o fewn adnoddau)
- Yn caniatáu datblygu'r cynllun i weithio mwy gyda busnesau bach, contractwyr lleol a mentrau cymunedol i sefydlu a chefnogi swyddi prentisiaethau newydd.

2.3.2 Cyfarfod Cabinet 18.05.21:
Cymeradwywyd y cais am £600,000 ychwanegol dros 3 blynedd (yn ogystal a swm o £500,000 ar gyfer Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory).

**3. 2020-21**

3.1 Recriwtio

3.1.1 Uchelgais ar gyfer 2020-21

- Penodi 18 prentis ychwanegol mewn 9 maes
- Bydd y rhain yn cael eu cyllido yn rhannol gan y buddsoddiad £300,000 gwreiddiol

3.1.2 Meysydd

| RHIF | TEITL | ADRAN | LEFEL | SWYDDI |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Prentis Cyswllt Cwsmer a Chofrestru | Cefnogaeth Gorfforaethol | 3 | 1 |
| 2 | Prentis Gofal Plant | Plant a Theuluoedd | 3 | 2 |
| 3 | Prentis Maes Gofal Oedolion (Gogledd) | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2 | 1 |
| 4 | Prentis Maes Gofal Oedolion (De) | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2 | 1 |
| 5 | Prentis Busnes a Gweinyddiaeth | Cefnogaeth Gorfforaethol | 3 | 1 |
| 6 | Prentis Maes Anableddau Dysgu – Preswyl | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2 | 1 |
| 7 | Prentis Maes Anableddau Dysgu – Cefnogol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 2 | 1 |
| 8 | Prentis Peirianneg Sifil | YGC | 3 | 1 |
| 9 | Prentis Gradd Ddigidol | Cyllid | 6 | 1 |
| 10 | Prentis Trydanwr Golau Stryd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3 | 2 |
| 11 | Prentis Peirianneg Sifil | NMWTRA | 3 | 2 |
| 12 | Prentis Busnes | NMWTRA | 3 | 1 |
| 13 | Prentis Gradd Diogelwch Seibr | NMWTRA | 6 | 1 |
| 14 | Prentis Peirianneg Sifil | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3 | 1 |
| 15 | Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol | Byw'n Iach | 3 | 1 |

## 4. Crynodeb Medi 2021

4.1 Recriwtio

Erbyn hyn, mae 30 prentis wedi eu recriwtio i'r Cynllun prentisiaethau ers cychwyn yn 2019

- 17 prentis wedi eu recriwtio yn 2019-20
    - 9 o brentisiaid 2019-20 eisoes wedi derbyn swydd yn y Cyngor
- 13 prentis wedi eu recriwtio hyd yma yn 2020-21
    - 7 o ferched a 6 o ddynion (gan gynnwys merched yn y meysydd Diogelwch Seibr a Trydanol)
- 7 swydd arall i'w hysbysebu cyn diwedd y flwyddyn 2020-21
    - Mae hyn yn cynnwys 2 swydd ychwanegol i'r uchelgais gwreiddiol a nodwyd ar gyfer y cyfnod (gweler 3.1.2)
        - Prentis Mecanic
        - Prentis Cyfathrebu & Ymgysylltu

Bydd hyn yn gyfanswm o **37 prentis** erbyn diwedd 2021 (os fedrwn ni lenwi bob swydd).

4.2 Llwyddiannau

- Cefnogaeth i'r Cynllun Prentisiaethau wedi bod yn ardderchog - gan aelod seneddol, y cabinet, Penaethiaid Adran, rheolwyr lleoliad, y rhieni a'r sefydliadau addysg.
- Cynllun Prentisiaethau wedi denu nifer uchel o geisiadau safonol.
- Proses recriwtio effeithiol wedi arwain at benodi nifer uwch o brentisiaid na'r disgwyl gan gynnwys merched mewn meysydd technegol.
- Bydd y Cyngor wedi recriwtio 37 o brentisiaid efo'r buddsoddiad gwreiddiol o £300,000 a gafodd ei wneud yn 2019. Mae'r niferoedd yn llawer uwch na'r targed gwreiddiol. Y prif reswm dros hyn yw bod y gwasanaethau wedi gallu cyfrannu yn fwy na'r disgwyl tuag at y cyflog.
- Penodiadau mewn meysydd blaenoriaeth gan gynnwys prentisiaethau gradd yn Technoleg Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r maes peirianneg sifil.
- Penodwyd prentisiaid sy'n byw dros ardal ddaearyddol eang (Dwyfor 4, Meirionnydd 4, Arfon 21, Ynys Môn 1)
- Er bod diffyg darpariaeth ddwyieithog o ansawdd yn enwedig ar lefelau uwch, mae'r Cyngor wedi annog darparwyr i gynnig y rhan fwyaf o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno'r Datganiad o Uchelgais yr Iaith Gymraeg ar gyfer Prentisiaethau Cyngor Gwynedd sy'n amlinellu'r disgwyliadau ieithyddol sydd ar y prentis, y Cyngor a'r darparwr ac yn amlygu ein huchelgais. Mae pob darparwr a phrentis wedi arwyddo'r datganiad i ymrwymo i'r disgwyliadau.
- Mae'r adborth gan reolwyr a thimau am ein prentisiaid wedi bod yn bositif ar y cyfan e.e. adborth am Aimee Parry sy'n gweithio fel prentis Cartref Maesincla - "Ni fedrai ganmol Aimee ddigon. Am ferch ifanc mae hi wedi bod yn ffantastig. Mae'r staff i gyd yn ei chanmol hi. Mae hi'n chwilio am waith ac yn ei wneud heb ddim ffws. Mae Aimee wedi dod yn rhan allweddol o'n tîm ni yma"
- Anfonwyd holiadur bodlonrwydd i'r prentisiaid, ac yn gyffredinol mae'r canlyniadau yn awgrymu bod ein prentisiaid yn fodlon iawn. Dyma drosolwg o'r canfyddiadau:
    - Mae asesiad y prentisiaid cyfredol yn un ai "Da" neu "Ardderchog" ar gyfer rhan fwyaf o elfennau'r brentisiaeth
    - Wrth adnabod geiriau i ddisgrifio eu prentisiaeth, mae'r nifer mwyaf wedi dewis "Agoriad llygaid", "Paratoi fi yn dda at swydd", "diddorol, llwyth o brofiadau" a "Heriol" fel y disgrifiadau mwyaf addas
    - Mae'r prentisiaid wedi ysgrifennu brawddeg i ddisgrifio eu prentisiaeth hyd yn hyn gan gynnwys - "Dw i wedi mwynhau bob eiliad o fod yn brentis Cyngor Gwynedd. Mi rydw i yn teimlo fel bod y brentisiaeth wedi rhoi lot o cymorth i mi gyda fy hunan-ddatblygiad, sydd wedi caniatáu mi i cyrraedd fy wir potensial".

## 5. Edrych i'r dyfodol

- Byddwn yn dechrau buddsoddi'r £600,000 a gymeradwywyd ym mis Mai ar ôl penodi'r 37 prentisiaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu.
- Niferoedd (5 mlynedd) – amcangyfrif 'geidwadol'

| | | **MEDI 2022** | **MEDI 2023** | **MEDI 2024** | **MEDI 2025** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prentisiaid** | **Newydd** | 20 | 20 | 20 | 20 |
| | **Cyfredol** | 10 | 15 | 20 | 20 |
| **CYFANSWM** | | 30 | 35 | 40 | 40 |

- Datblygu 'Prentisiaethau ar y cyd'
  - Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu prentisiaethau ar y cyd gyda cwmnïau a chontractwyr lleol, mewn meysydd cynnal a chadw (e.e. Saer, Trydanwr, Plymar).
  - Bydd y Cyngor yn cefnogi'r cwmnïau a'r contractwyr i sefydlu'r brentisiaeth ac o bosib cyfrannu tuag at cyflog y prentis.
- Mae'r tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn meintioli'r gwaith yn fanwl er mwyn adnabod yr adnodd staff sy'n angenrheidiol i gyfarch y 'gofyn' cynyddol.